# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Chwefror 2013

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL :** | Y Cynghorydd J. Arwel Roberts – Cadeirydd (eitem 1 yn unig)<br>Y Cynghorydd W. T. Hughes - Is-Gadeirydd (eitem 2 yn unig)<br><br>Y Cynghorwyr W. J. Chorlton, E. G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans, Kenneth P. Hughes, Vaughan Hughes, Clive McGregor, R. L. Owen, Eric Roberts; |
| **WRTH LAW** : | Swyddog Cynllunio (MD),<br>Swyddog Rheoli Datblygu (Priffyrdd) (RE)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU** : | Dim. |
| **HEFYD YN BRESENNOL :** | Aelodau Lleol : Y Cynghorydd G. W. Roberts OBE – Eitem 2. |

---

**1. 46C149L – CAIS LLAWN I NEWID DEFNYDD TIR I FFURFIO CYFLEUSTER STORIO CYCHOD YNGHYD AG ADEILADU MYNEDFA I GERBYDAU AR DIR YN GYFAGOS I FAES PARCIO CEIR Y TREARDDUR BAY HOTEL, LÔN ISALLT, TREARDDUR**

Ymwelwyd â'r safle ar argymhelliad yr Aelod Lleol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2013.

Mae'r safle yn gorwedd yng nghanol pentref Trearddur. Mae'r safle oddi ar Lôn Isallt ac wedi ei leoli rhwng y Trearddur Bay Hotel a'r Grin Bowlio. Yn ffrynt safle'r cais fe geir cyrtiau tenis a phafiliwn. Mae'r safle gyferbyn â'r llithrfa lansio cychod a'r llefydd parcio. Edrychodd yr Aelodau ar y lleoliadau i gael syniad o'r cynnig.

Rhoddodd y Swyddogion amlinelliad o'r cais ac edrychodd yr Aelodau ar y cynlluniau ar gyfer y cynnig.

Gofynnwyd am i farn sgrinio gael ei ystyried cyn y byddir yn cyflwyno'r cais i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.

**2. 11C399E – LLEOLI CABAN COED AR GYFER DEFNYDD FYDD YN ATEGOL I'R BRIF ANNEDD YN TYN Y COED, PENRHYD, AMLWCH**

Ymwelwyd â'r safle ar gais yr Aelod Lleol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2013.

Mae'r safle'n ffurfio rhan o gwrtil fferm Tyn y Coed a chais yw hwn i godi caban coed ar gyfer defnydd preswyl i fab y teulu fydd yn edrych ar ôl plant gyda salwch difrifol ac fydd angen gofal 24 awr.

Edrychodd yr Aelodau ar y safle a rhoddodd yr Aelod Lleol y cefndir i'r cynnig a soniodd am angen arbennig y perchnogion.

**Y CYNGHORYDD J. ARWEL ROBERTS – YN GADEIRYDD AR GYFER EITEM 1**

**Y CYNGHORYDD W. T. HUGHES – IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR AR GYFER EITEM 2**